S4C /

## Bwrdd S4C

Cyfarfod 485
10:45, 26 Mehefin 2026
Cyfarfod rhithiol

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [Lll], Prif Swyddog Cynnwys
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Sharon Winogorski [ShW], Prif Swyddog Cyllid

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod. | |
| 2. | **Adroddiad ariannol chwarterol (Ch 4 2025–26)**<br><br>Cyflwynodd ShW yr adroddiad ariannol chwarterol, a nodwyd bod arbedion cyffredinolerbyn diwedd y flwyddyn, gyda rhan helaeth o'r rhain eisoes wedi'u hymgorffori yn y gyllideb ar gyfer 2026–27. Tynnwyd sylw at arbedion ychwanegol yn y chwarter olaf, yn bennaf drwy grynhoi tanwariant ar draws gwahanol feysydd. Nodwyd cynnydd mewn incwm llog oherwydd balansau banc uwch a chyfraddau llog ffafriol, ynghyd â thanwariant ar gyflogau oherwydd swyddi heb ei lenwi eto.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo trosglwyddiadau cyllideb oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau** | |
| 3. | **Adroddiad ar berfformiad ariannol S4C Masnachol yn ystod 2025–26 (ar ffurf adroddiad ariannol Ch 4 2025-26)**<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad gan ShW ac wrth drafod perfformiad ariannol yr adain fasnachol, nodwyd colled weithredol yn ystod 2025–26. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Codwyd cwestiynau gan aelodau ynghylch cynaliadwyedd y model masnachol presennol – yn benodol, holwyd a oedd y gost sydd ynghlwm â chodi incwm masnachol yn cynnig gwerth. Awgrymwyd y byddai'n rhatach buddsoddi'r cronfeydd masnachol i gyd a defnyddio'r llog i gynnal yr ochr gyhoeddus. Mewn ymateb, eglurwyd bod yna ddisgwyliadau gwleidyddol i S4C geisio creu incwm masnachol, ac y byddai dod â gweithgareddau masnachol i ben yn golygu costau uwch ar yr ochr gyhoeddus.<br><br>Nodwyd bod angen adolygiad pellach o'r strategaeth fasnachol, gyda ffocws penodol ar gyfleoedd digidol a chynyddu incwm – byddai'r Bwrdd Masnachol yn cynnal trafodaeth strategol bellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><br>[gadawodd ShW y cyfarfod] | |
| 4. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br>Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn gynt yn y bore gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Trafodwyd nifer o'r papurau mewn manylder yn ystod y cyfarfod hwnnw.<br><br><u>Adroddiad blynyddol yr NAO (gan gynnwys y llythyr cynrychiolaeth)</u><br><br>Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Nnodwyd ei fod yn gadarnhaol iawn, ac fe wnaeth yr aelodau ganmol gwaith ShW a'r Tîm Cyllid ar y canlyniad hwn.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y llythyr cynrychiolaeth i'r NAO.**<br><br><u>Adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol</u><br><br>Nodwyd adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.<br><br><u>Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2025–26</u><br><br>Ystyriwyd yr adroddiad blynyddol, gyda'r aelodau yn ei ganmol fel dogfen o safon uchel, clir a phroffesiynol, a oedd yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar waith y sefydliad. Nodwyd ei lwyddiant wrth adrodd stori'r sefydliad a dangos cynnydd yn y maes digidol. Awgrymwyd y dylid cryfhau'r defnydd o ddata a mesuryddion perfformiad yn y dyfodol er mwyn dangos cynnydd yn fwy effeithiol ac hefyd ein defnydd o AI.<br><br>Nodwyd bod angen ychwanegu penodiad DLP i'r rhestr o aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn yr adroddiad llywodraethu.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y ddogfen i'w chyhoeddi, cyhyd â bod aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei gywiro.** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Penderfyniad: Bod yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2026–27 ymlaen yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w drafod, gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ffocysu ar yr ochr ariannol yn unig.**<br><br>Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'r BBC (i'w gyflwyno iddynt gyda chopi o'r Adroddiad Blynyddol)<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'r BBC.**<br><br>Y Datganiad blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern i'w gyhoeddi.**<br><br>Polisi Teithio a Chynhaliaeth<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y diwygiadau i'r polisi.**<br><br>Cofnodion y cyfarfod blaenorol<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cofnodion cyfarfod 484, a gynhaliwyd ar 21/05/2026.**<br><br>Pwyntiau Gweithredu<br><br>Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.<br><br>Rhaglen Waith y Bwrdd<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd. | |
| 5. | **Unrhyw fater arall**<br><br>Prif Swyddog Technegol<br><br>Ategwyd y byddai diweddariad ar swyddogaeth y Prif Swyddog Technegol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd a bod y gwaith o adolygu'n parhau. | |